WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Datganiad o Gyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Cyrff mae'n Archwilio mewn Perthynas â Datganiadau Ariannol – **Swyddfa Archwilio Cymru**

Cyhoeddwyd: Rhagfyr 2016

Cyfeirnod y ddogfen: 364A2016

Paratowyd y ddogfen fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru ar swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

This document is also available in English.

Y person a gyflawnodd y gwaith oedd Anthony Barrett.

# Cynnwys

Mae'r Datganiad hwn yn manylu ar gyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol a chyfrifoldebau'r cyrff mae'n archwilio mewn perthynas ag archwilio datganiadau ariannol.


Datganiad o Gyfrifoldebau

Cyflwyniad 4

Cyfrifoldebau cyffredinol 4

Archwilio datganiadau ariannol 6

Adrodd ar ganlyniadau gwaith archwilio 9

Hawliadau grant a ffurflenni – ardystio 11

# Datganiad o Gyfrifoldebau

## Cyflwyniad

1 Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol statudol y datganiadau ariannol a baratowyd gan:

- Cyrff llywodraeth leol fel y diffiniwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004
- Cyrff lleol GIG Cymru
- Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Llywodraeth Cymru (gan gynnwys cyfrifon cryno GIG Cymru)
- Yr amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru, neu sy'n gysylltiedig â Llywodraeth Cymru

2 Hefyd ceir rhai cyfrifon penodol lle mae'r Archwilydd Cenedlaethol yn archwilydd allanol trwy gytundeb, yn hytrach na thrwy statud.

3 Yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am baratoi Cod Ymarfer Archwilio (y Cod), sy'n rhagnodi'r ffordd y bydd archwilwyr yn cyflawni eu swyddogaethau.

4 Mae'r Datganiad hwn yn cefnogi'r Cod ac yn cynorthwyo cyrff a archwiliwyd trwy grynhoi cyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol a chyfrifoldebau'r corff a archwiliwyd.

5 Drwy gydol y ddogfen hon, mae'r termau archwilydd ac archwilwyr yn berthnasol gyda'i gilydd i'r:

- Archwilydd Cyffredinol
- Gweithwyr Swyddfa Archwilio Cymru
- Unrhyw unigolyn arall sy'n darparu gwasanaethau archwilio ar ran Swyddfa Archwilio Cymru

## Cyfrifoldebau cyffredinol

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol

6 Diffinnir swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol mewn deddfwriaeth sy'n cwmpasu archwiliadau unigol. Manylir ar y ffordd y bydd archwilwyr yn ymarfer y swyddogaethau hynny yn y Cod, sy'n rhagnodi'r ffordd y bydd swyddogaethau archwilio'r Archwilydd Cyffredinol yn cael eu cyflawni (ochr yn ochr â rhai swyddogaethau eraill), ac yn ymgorffori'r hyn sy'n ymddangos i fod yn ymarfer proffesiynol gorau i'r Archwilydd Cyffredinol. Ni fwriadwyd i unrhyw beth yn y Datganiad hwn gyfyngu ar y cyfrifoldebau hynny na'u hymestyn. Yn enwedig oherwydd bod yn rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol beidio â niweidio ei annibyniaeth, nid yw'r rôl archwilio'n cynnwys darparu cyngor ariannol neu gyfreithiol, nac ymgynghoriaeth i gyrff a archwiliwyd.

### Ceisiadau ad hoc am farn archwilwyr

7 Efallai y bydd achlysuron pan fydd cyrff a archwiliwyd yn ceisio barn archwilwyr ar gyfreithlondeb, triniaeth gyfrifyddu neu werth am arian trafodiad cyn cychwyn arno. Mewn achosion o'r fath bydd archwilwyr mor gynorthwyol â phosibl, ond maent wedi'u hatal rhag rhoi barn bendant mewn unrhyw achosion oherwydd bod yn rhaid i archwilwyr:

- beidio â niweidio annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol trwy gymryd rhan ym mhrosesau penderfynu'r corff a archwiliwyd; a
- pheidio â bod yn gynghorwyr ariannol neu gyfreithiol i'r corff a archwiliwyd.

8 Mewn ymateb i geisiadau o'r fath, gellir disgwyl i archwilwyr gynnig arwydd yn unig ynglŷn â ph'un a yw'n debygol y bydd unrhyw beth yn y wybodaeth sydd ar gael iddynt ar adeg llunio barn yn achosi iddynt ystyried argymell camau penodol o weithredu i'r Archwilydd Cyffredinol. Ni ddylid cymryd bod unrhyw ymateb gan archwilwyr i gais o'r fath yn awgrymu y bydd y trafodiad neu gamau gweithredu arfaethedig wedi'i eithrio o gael ei herio yn y dyfodol, naill ai gan archwilwyr neu bobl eraill sydd â hawl i godi gwrthwynebiad iddo. Cyfrifoldeb y corff a archwiliwyd yw penderfynu a ddylid cychwyn ar unrhyw gamau gweithredu penodol.

9 Gall yr Archwilydd Cyffredinol neu ei gynrychiolwyr gymryd rhan fel sylwedyddion yn yr amrywiaeth o grwpiau gwaith, prosiect a thasg a sefydlwyd gan gyrff a archwiliwyd i gynorthwyo mewn trafodaethau cyn belled ag y gallant wneud: er enghraifft trwy ddwyn sylw at ymarfer da rhywle arall; trwy nodi hepgoriadau posibl yn y dull o weithredu; ac, yn fwy cyffredinol, trwy weithredu fel 'cyfeillion beirniadol'. Fodd bynnag, ni fyddant yn cymryd rhan wrth benderfynu ar bolisi neu wneud penderfyniadau ac ni fyddant yn ceisio chwarae rhan wrth roi polisi ar waith yn uniongyrchol.

## Cyfrifoldebau rheolwyr a'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu

10 Mae'r rheiny sy'n gyfrifol am gynnal busnes cyhoeddus ac am wario arian cyhoeddus yn gyfrifol am sicrhau bod busnes cyhoeddus yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, cyfrifir amdano'n briodol, a'i ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

11 Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, mae cyrff cyhoeddus a'u rheolwyr (aelodau a swyddogion) yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu eu materion a stiwardiaeth yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Hefyd mae'n ofynnol iddynt adrodd ar y trefniadau hyn mewn unrhyw ddatganiad a gyhoeddwyd yn flynyddol mewn perthynas â'u hadolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol (ee datganiad llywodraethu blynyddol).

### Mynediad at wybodaeth

12 Mae rheolwyr y corff yn gyfrifol am ddarparu'r canlynol i archwilwyr:

- mynediad at yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol amdani sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol fel cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- gwybodaeth ychwanegol y gallai'r archwilydd ofyn amdani oddi wrth reolwyr at ddibenion yr archwiliad; a
- mynediad anghyfyngedig at unigolion yn y corff a archwiliwyd y mae'r archwilydd yn pennu bod angen sicrhau tystiolaeth archwilio oddi wrthynt.

13 Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol hawliau mynediad eang at ddogfennau a gwybodaeth mewn perthynas â'i swyddogaethau archwilio. Mae hawliau o'r fath yn berthnasol i ddogfennau a gwybodaeth a ddelir gan y corff a'i aelodau a'i staff, yn ogystal â phartneriaid a chontractwyr y corff, boed hynny yn y sectorau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol. Mae cyfyngiadau statudol ar ddatblygu gwybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad neu arolygiad yn cyd-fynd â'r rhain, yn destun i eithriadau penodol yn unig. Ceir crynodeb o hawliau mynediad yr Archwilydd Cyffredinol ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

# Archwilio datganiadau ariannol

## Amcan a chwmpas yr archwiliad

14 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal ei archwiliad yn unol â'r Cod a safonau archwilio a safonau eraill y mae'r Cyngor Adrodd Ariannol wedi'u cyhoeddi neu eu mabwysiadu.

15 Wrth gynnal yr archwiliad hwn, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried cysyniad perthnasedd. Yn destun i'r cysyniad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn darparu sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol:

- yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny wedi'i achosi gan dwyll neu afreoleidd-dra neu wall arall;
- yn cydymffurfio â gofynion statudol a gofynion eraill sy'n berthnasol; ac
- yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifyddu.

16 Ac eithrio cyrff llywodraeth leol ac elusennau mae'r archwiliad hefyd yn cynnwys gwaith ar:

- Rheoleidd-dra incwm a gwariant
- Adroddiad ar gydnabyddiaethau

17 Mae archwiliad yn golygu cyflawni gweithredoedd i sicrhau tystiolaeth archwilio am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol. Bydd y gweithdrefnau yr ymgymerwyd â hwy yn dibynnu ar farn archwilydd ynglŷn â risgiau cam-ddatgan perthnasol datganiadau ariannol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a'r ffyrdd mwyaf effeithiol o gael sicrwydd dros y risgiau hynny.

18 Bydd yr archwilydd yn gwerthuso systemau ariannol sylweddol a'r mesurau rheoli ariannol mewn sy'n gysylltiedig, a bydd yn dwyn unrhyw wendidau a nodwyd at sylw'r corff a archwiliwyd, ond ni ellir disgwyl i hyn nodi'r holl wendidau a allai bodoli.

19 Bydd yr archwilydd yn archwilio mesurau rheoli dethol, trafodion a balansau ar sail prawf a bydd hefyd yn gwerthuso priodoldeb polisïau cyfrifyddu sy'n cael eu defnyddio a rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu a dyfarniadau gan reolwyr yn ogystal â gwerthuso cyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

20 Mae cyfyngiadau cynhenid archwiliad, ynghyd â chyfyngiadau cynhenid mesurau rheoli mewnol, yn arwain at risg ni ellir ei osgoi efallai ni fydd rhai camddatganiadau perthnasol yn cael eu canfod, er bod yr archwiliad yn cael ei gynllunio a'i gyflawni'n briodol yn unol â safonau archwilio.

21 Gan ystyried y wybodaeth am y corff a archwiliwyd a gafwyd trwy waith datganiadau ariannol, bydd yr archwilydd hefyd yn adolygu a yw'r datganiad llywodraethu wedi cael ei gyflwyno yn unol â'r gofynion perthnasol ac yn adrodd os na fydd yn bodoli'r gofynion hyn neu os yw'n gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall y mae'r archwilydd yn ymwybodol ohoni. Nid yw'n ofynnol i'r archwilydd ystyried a yw'r datganiad llywodraethu'n cwmpasu'r holl risgiau a mesurau rheoli, nac yn ofynnol ffurfio barn ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethau corfforaethol y corff ar weithdrefnau rheoli neu risg.

22 Wrth gyflawni'r gwaith ar y datganiadau ariannol, bydd archwilwyr yn:

- cynllunio cwblhau gwaith a bodloni terfynau amser y cytunwyd arnynt;
- cydweithio'n agos â'r corff a archwiliwyd; ac yn
- darparu adnoddau priodol a digonol, ac yn neilltuo cyfrifoldebau i staff â'r arbenigedd a phrofiad perthnasol.

## Cyfrifoldebau rheolwyr a'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu

23 Mae'r datganiadau ariannol, sy'n rhan o gyfrifon cyhoeddedig y corff, yn ddull hanfodol o'r ffordd mae'n gyfrif am ei stiwardiaeth o'r adnoddau sydd ar gael iddynt a'i berfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny. Nid yw gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn rhyddhau'r rheolwyr a'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu o'u cyfrifoldebau sy'n cynnwys:

- paratoi'r datganiadau blynyddol ac adroddiad blynyddol yn unol â chanllawiau
  a safonau cyfrifyddu perthnasol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion ariannol; a
- sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.

24 Bydd rheolwyr y corff yn darparu sylwadau ysgrifenedig i'r Archwilydd Cyffredinol i gadarnhau:

- ei fod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau i baratoi'r datganiadau ariannol;
- bod yr holl drafodion wedi cael eu cofnodi a bod y datganiadau ariannol yn eu hadlewyrchu;
- cyflawnrwydd y wybodaeth a ddarparwyd at ddibenion yr archwiliad; a
- thystiolaeth archwilio arall sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol neu honiadau penodol yn y datganiadau ariannol os yw'r archwilydd yn pennu bod hynny'n ofynnol neu os yw'n ofynnol gan safonau archwilio.

25 Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r corff hefyd yn gyfrifol am baratoi a chyhoeddi yn unol â'r rheoliadau/canllawiau perthnasol a datganiad llywodraethu.

26 Wrth baratoi eu datganiadau ariannol, mae cyrff yn gyfrifol am:

- baratoi cynllunio realistig i baratoi'r datganiadau sy'n cynnwys targedau clir ac amserlenni cyraeddadwy;
- neilltuo cyfrifoldebau'n glir i staff sydd â'r arbenigedd a phrofiad priodol;
- darparu adnoddau gofynnol i alluogi cyflawni'r cynllun;
- cynnal dogfennaeth ddigonol i gefnogi datganiadau ariannol ac, ar ddechrau'r archwiliad, darparu set gyflawn o bapurau gwaith sy'n darparu esboniad digonol o'r cofnodion yn y datganiadau ariannol hynny;
- sicrhau bod uwch reolwyr yn monitro, goruchwylio ac adolygu gwaith i fodloni safonau a therfynau amser y cytunwyd arnynt; a
- sicrhau bod unigolyn uwch ar lefel uwch reolwyr yn adolygu a chymeradwyo'r datganiadau ariannol yn bersonol cyn eu cyflwyno i'r archwilydd.

27 Os na fydd datganiadau ariannol drafft a phapurau gwaith o ansawdd priodol ar gael ar ddyddiad dechrau'r archwiliad y cytunwyd arno, efallai ni fydd yr archwilydd yn gallu cychwyn ar yr archwiliad fel y cynlluniwyd ac, o ganlyniad, efallai ni fyddant yn gallu bodloni'r amserlen archwilio y cytunwyd arni. Cyfrifir y ffi archwilio ar y sail bod y datganiadau ariannol drafft a phapurau gwaith manwl wedi'u darparu yn unol ag amserlen y cytunwyd arni a'u bod o safon dderbyniol. Os na fydd gwybodaeth yn cael ei darparu'n unol â'r amserlen hon, neu os yw'n cael ei darparu hyd safon annerbyniol, bydd yr archwilydd yn codi ffioedd ychwanegol am unrhyw waith ychwanegol sy'n ofynnol.

28 Pan fydd y corff a archwiliwyd yn dymuno cyhoeddi ei ddatganiadau ariannol yn electronig, mae'n gyfrifol am sicrhau bod y cyhoeddiad yn cyflwyno'r datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd ar y datganiadau hynny'n gywir. Mae'r cyfrifoldeb hwn hefyd yn berthnasol i gyflwyno unrhyw wybodaeth ariannol a gyhoeddwyd mewn perthynas â chyfnodau blaenorol. Os yw'r corff a archwiliwyd yn dymuno dosbarthu copïau electronig o'r datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd ar y datganiadau ariannol hynny i'w randdeiliaid, mae'n rhaid iddo sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno'n gywir. Ni ddylai adroddiad yr archwilydd ar y datganiadau ariannol gael ei atgynhyrchu, ac ni ddylid cyfeirio atynt yn electronig, heb ganiatâd ysgrifenedig yr archwilydd. Mae archwilio'r mesurau rheoli dros gyhoeddiad electronig y datganiadau ariannol a archwiliwyd y tu hwnt i gwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol. Ni all yr archwilydd fod yn gyfrifol am newidiadau a wnaed i'r datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd ar ôl y cyhoeddiad cychwynnol.

# Adrodd ar ganlyniadau gwaith archwilio

## Adroddiad a thystysgrif archwiliad

29 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn darparu:

- adroddiad archwiliad sy'n cynnwys ei farn ar wirionedd a thegwch a pharatoi priodol y datganiadau ariannol; ac
- ar gyfer cyrff llywodraeth leol, tystysgrif bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi cael ei gwblhau yn unol â gofynion statudol.

30 Bydd yr archwilydd yn ystyried, wrth baratoi'r adroddiad archwiliad, p'un a yw:

- cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw gan y corff a archwiliwyd, a ffurflenni priodol sy'n ddigonol ar gyfer yr archwiliad wedi cael eu derbyn oddi wrth unrhyw drydydd partïon;
- datganiadau ariannol y corff a archwiliwyd yn cytuno â'r ffurflenni a chofnodion cyfrifyddu;
- yr archwilydd wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol yn ei farn ef at ddibenion ei archwiliad; a'r
- wybodaeth a roddir mewn adroddiad sy'n rhan o'r datganiadau ariannol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

31 Lle bo hynny'n berthnasol, bydd adroddiad yr archwiliad yn cynnwys adrodd, neu'n cyfeirio at unrhyw adroddiad gan yr archwilydd, ar:

- y datganiad llywodraethu; ac
- ymarfer unrhyw ofynion adrodd statudol yr Archwilydd Cyffredinol gan gynnwys rheoleidd-dra incwm a gwariant a pharatoi priodol yr adroddiad ar gydnabyddiaethau.

32 Hefyd mae gan yr archwilydd gyfrifoldeb i adrodd os nad yw'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio mewn unrhyw ffordd berthnasol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol, i'r graddau ag y mae'n berthnasol i amgylchiadau'r corff a archwiliwyd, oni bai, ym marn yr archwilydd, bod diffyg cydymffurfiaeth wedi'i gyfiawnhau.

33 Wrth bennu a yw gwyro wedi'i gyfiawnhau ai peidio, bydd yr archwilydd yn ystyried:

- a yw gwyro'n ofynnol er mwyn i'r datganiadau ariannol gyflwyno'n deg neu roi barn wir a theg; a
- ph'un a yw unrhyw wyro wedi cael ei ddatgelu'n ddigonol yn y datganiadau cyfrifyddu.

## Adroddiadau er budd y cyhoedd

34 Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried a yw unrhyw fater wedi cael ei ddwyn i'w sylw yn ystod yr archwiliad ai peidio y dylid adrodd arno mewn adroddiad er budd y cyhoedd. Gall yr angen am adroddiadau o'r fath godi ar unrhyw adeg yn ystod y broses archwilio.

## Adroddiadau i reolwyr a'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu

35 Mae'r archwilydd hefyd yn darparu:

- dogfen gynllunio;
- memoranda neu adroddiadau ysgrifenedig a/neu lafar i swyddogion a, lle bo hynny'n briodol, aelodau, ar ganlyniadau agweddau penodol ar waith archwilio, neu faterion sy'n codi ohonynt; a
- llythyr archwilio blynyddol (neu gyfwerth).

36 Wrth ystyried y camau i'w cymryd ar adroddiadau archwilio, dylai cyrff a archwiliwyd gadw mewn cof cwmpas yr archwiliad a chyfrifoldebau archwilwyr, fel y manylwyd yn y Cod ac esboniwyd ymhellach yn y Datganiad hwn. Bydd materion sy'n cael eu codi gan archwilwyr yn cael eu tynnu o'r rheiny sy'n dod i'w sylw yn ystod yr archwiliad.

37 Ni ellir dibynnu ar yr archwiliad i ganfod pob gwall, gwendid neu gyfle i wella mewn trefniadau rheoli a allai fodoli. Dylai cyrff a archwiliwyd asesu canlyniadau ac argymhellion archwilwyr ar gyfer eu goblygiadau ehangach cyn penderfynu eu derbyn neu eu rhoi ar waith.

38 Mae adroddiadau a llythyrau archwilio blynyddol at aelodau'r corff a archwiliwyd ac wedi'u paratoi at ddefnydd y corff hwnnw'n unigol. Nid oes gan archwilwyr gyfrifoldebau i swyddogion neu aelodau yn unigol (ac eithrio wrth ymarfer dyletswyddau a phwerau penodol yr archwilwyr mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â hawliau etholwyr mewn llywodraeth leol) neu i drydydd partïon sy'n dymuno dibynnu ar yr adroddiadau gan archwilwyr.

# Hawliadau grant a ffurflenni – ardystio

39 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud trefniadau ardystio'n unol â'r fframwaith y manylwyd arno yn y Datganiad o Gyfrifoldebau awdurdodau a chyrff sy'n talu grantiau, yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr a benodwyd mewn perthynas â hawliadau a ffurflenni ar wahân. Mae'r cyfrifoldeb am sicrhau cwblhad, cywirdeb a chyflawnder hawliadau a ffurflenni grant yn perthyn i'r corff a archwiliwyd.

40 Efallai y bydd cyrff sy'n talu grantiau angen holiad annibynnol fel amod eu bod yn derbyn hawliadau a ffurflenni, a gallant ofyn i'r Archwilydd Cyffredinol wneud trefniadau i archwilydd ardystio hawliadau a ffurflenni. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol ddyletswydd statudol i wneud trefniadau ardystio os bydd corff perthnasol a archwiliwyd yn gofyn iddo wneud hynny, bydd yn ystyried yr hyn sy'n briodol, yn ymarferol ac yn broffesiynol i ddisgwyl i'r broses ardystio a'r archwilwyr ei wneud cyn gwneud trefniadau ardystio. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn annog cyrff sy'n talu grantiau i gytuno i drefniadau ardystio priodol cyn bod ardystio'n cael ei wneud yn un o amodau grant.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to a delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.